Chartered Institute of Housing Cymru

# Beth mae angen i chi ei wybod am Gyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru 2023-2024



Beth mae angen i chi ei wybod am Gyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru 2023-2024

Chartered Institute of Housing Cymru

## Cefndir

Trafodwyd y gyllideb derfynol ar gyfer 2023-24 yn y Senedd ar 7 Mawrth 2023. Amlinellodd y gweinidog cyllid eto fod hon yn gyllideb "a grëwyd mewn amseroedd caled ar gyfer amseroedd caled". Mae economi'r DU mewn dirwasgiad ac mae chwyddiant ar ei lefel uchaf mewn 40 mlynedd. I ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru mae'r gweinidog wedi adolygu ac ail-flaenoriaethu gwariant er mwyn ffocysu'r adnoddau cyfyngedig ar y meysydd o'r angen mwyaf.

Amlinellodd y gweinidog cyllid hefyd fod £164 miliwn ychwanegol o gyfalaf trafodion ariannol ar gael i'w ddyrannu. Mae hyn yn ychwanegol at y gwariant ychwanegol a gyhoeddwyd yn flaenorol ar gyfer iechyd ac addysg.

Er gwaethaf cyllid ychwanegol gan Lywodraeth y DU mae pwysau chwyddiant yn golygu bod toriad termau real o wyth y cant mewn buddsoddiad cyfalaf, a gallai'r setliad a dderbynnir gan Lywodraeth y DU fod werth £1 biliwn yn llai yn 2023-24. Hyd yn oed yn erbyn y cefndir hwn o gyfyngiadau ariannol mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynnal lefelau buddsoddi cyfalaf fel yr amlinellwyd yn 2022/23 ar ddechrau cyfnod yr adolygiad gwariant presennol hyd at 2024/25.

### Ymrwymiad cadarn i dai cymdeithasol

Mae cyllid ychwanegol ar gael i ddatblygu cartrefi cymdeithasol carbon isel.

Y cyfansymiau sydd bellach ar gael yw:

- 2023/24 - £370 miliwn
- 2024/25 - £365 miliwn

Er bod y cyllid wedi'i gynyddu mae'r lefelau chwyddiant presennol yn golygu na fydd yr arian hwn yn mynd mor bell. Rydym yn croesawu'r ymrwymiad parhaus i gartrefi carbon isel newydd fel rhan hanfodol o wireddu'r hawl i gartref digonol yma yng Nghymru.

Gyda'i ffocws ar roi adnoddau i'r sector barhau â'i gynnydd wrth ymdrin â'r argyfwng hinsawdd mae Llywodraeth Cymru wedi cadw **£400m ar gyfer datgarboneiddio** tai cymdeithasol presennol (hyd at 2024/25) (er bod hynny'n cynnwys £216 miliwn o gyllid gwaddol ar gyfer LSVT), gan gynnwys y buddsoddiadau yn y Rhaglen Ôl-osod wedi'i Optimeiddio.

Mae diogelwch adeiladau hefyd yn amlwg gyda **£300 miliwn mewn cyllid cyfalaf** hyd at 2024/25.

Dyrannodd y gyllideb **£70 miliwn hefyd ar gyfer Rhaglen Cartrefi Clyd Llywodraeth Cymru** (neu unrhyw fersiwn o'r rhaglen hon yn y dyfodol) sy'n ceisio gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi a thaclo tlodi tanwydd yn y sectorau rhentu preifat a pherchennog preswyl.

I gefnogi'r ymdrech i adeiladu tai'n gyffredinol ymhellach, mae'r gyllideb yn cynnwys **£50 miliwn i gynyddu'r cyflenwad a'r dewis o dai ar y farchnad ochr yn ochr â £6.5 miliwn ar gyfer cynllun Cymorth Prynu Llywodraeth Cymru**.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi defnyddio £63 miliwn o'r cyfalaf trafodion ariannol ychwanegol i ehangu Cymorth i Brynu Cymru hyd at fis Mawrth 2025.

## Blaenoriaethau allweddol eraill

Mae **£10 miliwn ychwanegol wedi'i neilltuo i atal digartrefedd**. Mae hyn yn golygu bod **£46 miliwn wedi'i ddyrannu i atal digartrefedd yn 2023/24**. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu **£40 miliwn dros ddwy flynedd i helpu aelwydydd sy'n wynebu anhawster gyda'u morgais yn gynnar** er mwyn helpu atal digartrefedd. Mae hyn yn ychwanegol at y **£3 miliwn a ddarperir i gynllun lesio'r sector rhentu preifat**, sy'n darparu adnodd ychwanegol i awdurdodau lleol i gynyddu argaeledd llety er mwyn taclo digartrefedd.

Mae awdurdodau lleol hefyd yn derbyn y gyllideb ychwanegol a ganlyn i'w helpu i lywio'r argyfwng costau byw:

- 2023/24 - £227 miliwn
- 2024/25 - £268 miliwn

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo na fydd yr un awdurdod lleol yn derbyn llai na chynnydd o 6.5 y cant yn y cyllid craidd yn 2023/24.

Nid oes ymchwydd ychwanegol yn y cyllid a ddyrennir i'r Grant Cymorth Tai, a fydd yn aros ar £166 miliwn y flwyddyn. Fe wnaeth y gweinidog cyllid gydnabod yr wybodaeth ychwanegol a dderbyniwyd gan randdeiliaid ond oherwydd yr hinsawdd ariannol bresennol nid oedd yn gallu bodloni popeth y gofynnwyd amdano.

Mae ymrwymiad i fuddsoddi **£165 miliwn pellach mewn iechyd a gofal cymdeithasol** yn ychwanegol at y £9.4 biliwn o gyllid presennol. **O fis Ebrill 2022 ymlaen bydd Gweithwyr Gofal Cymdeithasol Cymru'n derbyn y Cyflog Byw Gwirioneddol. Mae £70 miliwn wedi cael ei ddyrannu** i gyflawni'r ymrwymiad hwn.

Bydd cefnogaeth barhaus i'r aelwydydd hynny yng Nghymru sydd fwyaf mewn perygl o ganlyniad i'r argyfwng costau byw. Bydd **£18.8 miliwn ychwanegol yn cael ei ddyrannu i'r Gronfa Cymorth Dewisol**.

Bydd buddsoddiad yn y Grant Datblygu Disgyblion yn parhau gyda dyraniad ychwanegol o £9 miliwn.

Er mwyn i ymateb **Dyngarol Wcráin** barhau darperir y cyllid canlynol i Awdurdodau Lleol fel y gallant barhau i ddarparu gwasanaethau:

• 2023/24 - £40 miliwn

• 2024/25 - £20 miliwn

## Barn CIH Cymru

Rydym yn cydnabod y penderfyniadau anodd y mae Llywodraeth Cymru wedi'u gwneud yn ystod cyfnod o gyfyngiadau ariannol sylweddol, gyda setliad Llywodraeth y DU yn werth £1 biliwn yn llai mewn termau real yn 2023/24.

Rydym yn croesawu penderfyniad Llywodraeth Cymru i ddefnyddio rhywfaint o'r grant cyfalaf ariannol ychwanegol i gynyddu lefelau'r grant tai cymdeithasol sydd ar gael, gan adlewyrchu'r ymrwymiad parhaus i ddatblygu 20,000 o gartrefi cymdeithasol carbon isel yn nhymor y Senedd hon. Er hynny, fel yr amlinellir gan y gweinidog cyllid mae'n bosib na fydd hyn i gyd yn gartrefi newydd ond yn cynnwys cartrefi y gwellwyd eu safon a thai gwag sy'n cael eu hadfer i ddefnydd.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnal lefel y cyllid i landlordiaid cymdeithasol ddatgarboneiddio eu stoc bresennol. Ond eto, mae'r cyllid hwn yn brin o gyfanswm y cyllid sydd ei angen. Hefyd, nid oes unrhyw ddyraniad cyllid i ddatgarboneiddio'r sector rhentu preifat. Fodd bynnag, mae yna ymrwymiad ariannu parhaus i ddiogelwch adeiladau.

Mae'n galonogol gweld yr ychwanegiadau cyllid ffafriol ar gyfer yr unigolion hynny yr effeithir yn sylweddol arnynt gan yr argyfwng costau byw trwy gynnydd yn y Gronfa Cymorth Dewisol. Bydd mawr angen hyn wrth i ni barhau i lywio'r argyfwng costau byw.

Rydym hefyd yn croesawu'r cymorth ariannol fydd ar gael i berchnogion tai sy'n ei chael hi'n anodd talu eu morgais yn gynnar er mwyn helpu atal digartrefedd. Er nad oes manylion llawn eto am sut y bydd hyn yn gweithio, bydd yn offeryn hanfodol ar gyfer timau atal digartrefedd awdurdodau lleol.

Rydym yn cydnabod y penderfyniadau anodd y mae Llywodraeth Cymru wedi'u gwneud fel rhan o'r gyllideb ddrafft ac yn croesawu eu hymrwymiad parhaus i ddatblygu cartrefi cymdeithasol carbon isel ychwanegol yng Nghymru, rhan hanfodol o wireddu ymgorffori hawl i gartref digonol yng Nghyfraith Cymru.

## Mwy o wybodaeth

Bydd CIH Cymru yn parhau i ymgysylltu â phob plaid wleidyddol ar sut gall y gyllideb hon ymateb i anghenion gweithwyr tai proffesiynol ar draws Cymru. Os hoffech ddarparu eich barn am y gyllideb derfynol, cysylltwch â: cerys.clark@cih.org.

